# Panel Cynghori ar Aer Glân i Gymru

## Penodi Aelodau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru am benodi cynghorwyr arbenigol abynol i'r Panel Cynghori ar Aer Glân.

**Cyflwyniad**

Mae'r Panel Cynghori ar Aer Glân yn darparu cyngor annibynnol ac arbenigol ar faterion ansawdd aer yng Nghymru. Mae cyngor y Panel yn cefnogi datblygiad polisi a deddfwriaeth ar sail tystiolaeth i sicrhau gwell ansawdd aer er budd iechyd pobl a'r amgylchedd naturiol.

**Y Swydd**

Mae'r Panel Cynghori ar Aer Glân yn grŵp amlddisgyblaethol sy'n cynnwys arbenigwyr yn y meysydd ansawdd aer, iechyd cyhoeddus a'r amgylchedd.

Bydd yn ofynnol i'r adelodau:

- Gynghori ar y cyd a darparu tystiolaeth wyddonol i gefnogi datblygiad polisi aer glân Llywodraeth Cymru.
- Cefnogi sefydlu targedau ansawdd air ar y cyd ar gyfer lleihau allyriadau llygryddion aer.
- Cydweithio ag adrannau perthnasol y llywodraeth a grwpiau cynghori eraill ar lefel y DU, Cymru ac yn lleol.
- Annog ar y cyd a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer atebion arloesol sy'n helpu i wella lefelau llygredd yn yr awyr.
- Cynghori Llywodraeth Cymru ar y cyd ar anghenion tystiolaeth yn y dyfodol a sut y gellir eu bodloni.
- Mynychu cyfarfodydd Panel yn bersonol neu'n rhithwir, fel y bo'n briodol.
- Cyfrannu ar y cyd at gyngor, papurau neu adroddiadau perthnasol.
- Cyfrannu at adolygiadau a gwaith cydweithredol yn ôl yr angen er mwyn hwyluso gwneud penderfyniadau prydlon.
- Darparu cyngor, a chydweithio â: swyddogion, Gweinidogion Cymru, grwpiau arbenigol technegol eraill, cyrff cyhoeddus, a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Mae arbenigedd y Panel cyfan yn cwmpasu pob maes perthnasol o wyddoniaeth ansawdd aer gan gynnwys y rhai a restrir isod. Mae'r swydd yn gofyn am arbenigedd gwyddonol a phrofiad sylweddol mewn maes sy'n berthnasol i ansawdd aer a disgyblaethau cysylltiedig.

Dylai ymgeiswyr allu dangos gwybodaeth am ystod gwaith y Panel a lefelau uchel o arbenigedd technegol mewn un neu fwy o'r meysydd a nodir isod.

| | |
|---|---|
| Epidemoieg llygredd aer | Ymchwil polisi ansawdd aer |
| Monitro ansawdd aer | Meteoroleg a hinsawdd |

| | |
|---|---|
| Model ansawdd aer | Rhestrau ac amcanestyniadau allyriadau |
| Rheoli ansawdd aer | Amaethyddiaeth a defnydd tir gwledi |
| Iechyd y cyhoedd ac asesiad economaidd-gymdeithasol sy'n ymwneud ag ansawdd aer gan gynnwys y rhyngwaith llygredd aer dan do-awyr agored. | |
| Asesiad economaidd-gymdeithasol o effeithiau llygredd aer, gan gynnwys anghydraddoldebau rhwng y grwpiau cymdeithasol mwyaf sensitif a derbynyddion agored i niwed. | |
| Economeg iechyd | Effeithiau ansawdd aer ar ecosystemau a bioamrywiaeth |
| Cyfraith amgylcheddol | Trafnidiaeth |
| Economeg amgylcheddol | Peiriannau nad ydynt yn symud ar y ffordd; |
| Technoleg mesur a synhwyro o bell | Gwyddoniaeth gysylltiedig mewn polisiau |
| Cemeg llygryddion aer | Ansawdd aer a newid hinsawdd |
| Ffynonellau, prosesau a mesur llygryddion nwy – yn enwedig cyfansoddion organig cyfnewidiol | Prosesau diwydiannol, gan gynnwys allyriadau i aer, atal, lliniaru ac atebion technolegol. |

## Meini prawf hanfodol

**1: ARBENIGEDD TECHNEGOL SY'N GYSYLLTIEDIG AG ANSAWDD AER**
Arbenigedd sylweddol, yn ddelfrydol gydag enw da cenedlaethol neu ryngwladol mewn un neu fwy o feysydd sy'n berthnasol i ansawdd aer a llygryddion (a restrir uchod). Tystiolaeth gref o allu defnyddio gwybodaeth arbenigol i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau a chyflawni i amserlen.

**2: DATRYS PROBLEMAU**
Gallu arbenigol profedig i brosesu a dehongli gwybodaeth gymhleth; sgiliau rhesymu dadansoddol a barn wedi'i ddatblygu'n dda; y gallu i ddarparu arweinyddiaeth ddeallusol a chreu dull rhagweithiol o ddatrys problemau gyda lefel uchel o broffesiynoldeb a gallu i addasu i ganiatáu defnyddio sgiliau i broblemau y tu allan i faes arbenigedd arbenigol.

**3: CYDWEITHIO**
Gallu dangosadwy i weithio'n effeithiol gydag eraill i gyflawni nodau a rennir a gwneud penderfyniadau cadarn, cytbwys ac amserol yn annibynnol a chydag eraill.

**4: CYFATHREBU**
Sgiliau cyfathrebu eithriadol, rhyngbersonol ac eiriolaeth sydd â gallu profedig i drafod, perswadio a dylanwadu ar bob lefel, gan gynnwys mewn grŵp cydweithredol; y gallu i drosi gwybodaeth wyddonol gymhleth ar gyfer cynulleidfa anarbenigol.

**Cyfnod y Penodiad**

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei benodi am gyfnod cychwynnol o dair blynedd.

Gellir ailbenodi yn amodol ar asesiad perfformiad boddhaol a bydd yn ôl disgresiwn Pennaeth Adran Diogelu'r Amgylchedd (EPD) Llywodraeth Cymru.

Gall y penodai ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Gyfarwyddwr EPD. O dan rai amodau, gall Cyfarwyddwr EPD ddod a'r penodiad i ben a caiff yr ymgeisydd llwyddiannus eu hysbysu o hynny pan gaiff ei benodi.

**Taliadau Cydnabyddiaeth a Lwfansau**

£198 y dydd. Bydd costau teithio dilys a chostau eraill yn cael eu had-dalu'n llawn. Fel canllaw, bydd gofyn i'r cadeirydd weithio tua 2.5 diwrnod y mis, gan fynychu tua 4-6 cyfarfod y flwyddyn, gydag ambell gyfarfod ad hoc fel y bo'n briodol.

**Gwrthdaro Buddiannau**

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i Is-adran Diogelu'r Amgylchedd os oes gennych unrhyw fuddiannau busnes neu bersonol a allai arwain at wrthdaro buddiannau real neu ganfyddedig pe baech yn cael eich penodi. Dylech ddatgelu gwybodaeth am unrhyw fuddiant busnes perthnasol, penodiad cyhoeddus neu swydd o awdurdod, gan gynnwys cysylltiadau eraill â chyrff masnachol, cyhoeddus neu wirfoddol.

**Sut i ymateb**

Dylai ymgeiswyr gyflwyno eu CV gydag addysg, cymwysterau proffesiynol a hanes cyflogaeth ac enwau a manylion cyswllt dau ganolwr, ynghyd â datganiad o addasrwydd at CleanAirAdvisoryPanel.Secretariat@llyw.cymru.

Dylai'r datganiad addasrwydd roi tystiolaeth o gryfder a dyfnder eich gallu i fodloni'r **meini prawf** hanfodol ar gyfer y rôl hon a hwn fydd y prif dystiolaeth a ddefnyddir ar gyfer y broses sifftio. Rhowch enghreifftiau penodol i ddangos sut rydych chi'n cwrdd â phob un o'r pedwar maen prawf (uchafswm o ddwy dudalen).

Bydd ymgeiswyr o ystod eang o gefndiroedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys y sector preifat, sefydliadau academaidd a phroffesiynol, a sefydliadau anllywodraethol.

Mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a'u hymgorffori ym mhob agwedd ar ei gwaith, gan gynnwys penodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu ceisiadau oddi wrth bob grŵp ac yn sicrhau na fydd unrhyw ymgeisydd cymwys yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, rhyw, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, beichiogrwydd neu famolaeth. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn cael eu parchu, a chaiff y penodiadau eu gwneud ar sail teilyngdod.

Am ragor o fanylion ac ymholiadau, cysylltwch ag e-bost gyda'r pwnc 'Cais am swydd cadeirydd y Panel Cynghori ar Aer Glân' ar CleanAirAdvisoryPanel.Secretariat@llyw.cymru.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **31 Mai 2024**. Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn. Disgwylir cynnal cyfweliadau ym mis Gorffennaf.

.